DWY O ACTAU MWYAF EU HOES
GYDA'I GILYDD AM Y TRO CYNTAF UN

WET WET WET A GO WEST

YN CYHOEDDI
BEST OF BOTH WORLDS
TAITH DDWY ACT 2024 YNG NGWLEDYDD PRYDAIN

Gwerthu Ymlaen Llaw i'r Cyfeillion: dydd Iau 25ain Mai am ddeg y bore
Gwerthu i'r cyhoedd: dydd Gwener 26ain Mai am ddeg y bore

Mae dau o fandiau mwyaf eiconig eu hoes, Wet Wet Wet a Go West, wedi cyhoeddi y byddan nhw'n cyfuno am y tro cyntaf erioed ar daith ddwy act yng ngwledydd Prydain.

Gwêl y daith ***Best of Both Worlds*** y bandiau chwedlonol yn chwarae sioeau drwy hyd a lled gwledydd Prydain ddechrau 2024, yn perfformio eu caneuon arloesol o

storfa drysor ar y cyd o hits, a phymtheg ar hugain rhyngddyn o Senglau yn Neugain Uchaf gwledydd Prydain!

Ers deugain mlynedd bellach daliodd Wet Wet Wet a Go West fel ei gilydd i gyfareddu selogion drwy'r byd yn grwn a does yna ddim arwydd eu bod yn arafu dim. Mae'r daith ddeuddeg oed yn ei chychwyn hi yn Neuadd Dewi Sant ar 21ain Ionawr ac yn dod i ben yn y Neuadd Gyngerdd Frenhinol yn Glasgow ar 7fed Chwefror. At hynny bydd Wet Wet Wet yn chwarae tair noson ar ben y rhaglen ar eu pennau'u hunain.

A chanddyn nhw gatalog anhygoel o ganeuon, does dim dwywaith nad ydi Wet Wet Wet yn dipyn o ryfeddod cerddorol wnaeth argraff aruthrol â'u cerddoriaeth dros y blynyddoedd, a'u rhoes ymhlith y bandiau mwyaf llwyddiannus yn hanes cerdd pop gwledydd Prydain.

Gwerthodd y band fwy na phymtheng miliwn o senglau ac albymau hyd yma a bu yn siartiau senglau ac albymau swyddogol gwledydd Prydain am gynifer â phum cant o wythnosau. Ardystiwyd eu halbymau yn blatinwm ugain gwaith drosodd yng ngwledydd Prydain yn unig ac ymddangosodd y band ar sioe deledu enwog y BBC, *Top Of The Pops*, chwe gwaith a hanner cant anhygoel, yn record i artist o'r Alban.

Ym 1982 yr ymffurfiodd y band ar ôl codi ei enw o linell mewn cân gan Scritti Politti, a rhyddhau ei sengl gyntaf *Wishing I Was Lucky* ym 1987. Buan yr aeth i'r siartiau, a dechrau rhesiad aruthrol o saith ar hugain o hits yn y Deugain Uchaf yn cynnwys tri Rhif Un yng ngwledydd Prydain - *With A Little Help From My Friends* (1988); *Goodnight Girl* (1991); a *Love Is All Around* (1994) – a dreuliodd bymtheg wythnos ar y brig, record i unrhyw artist o wledydd Prydain, sydd heb ei thorri eto. Hyrddiodd albwm début y band *Popped in Souled Out* (1987) i'r siartiau hefyd, ar ei ben i Rif Un.

Ers 2018, Kevin Simm (enillydd *The Voice UK* ac un o gynaelodau Liberty X) sydd ar flaen Wet Wet Wet a ryddhaodd ei albwm cyntaf gyda Kevin, *The Journey*, yn 2021 a chael croeso enfawr gan y beirniaid. Ochr yn ochr â Kevin, yma o hyd, Graeme Clark (gitâr bas) a Graeme Duffin (gitâr) sydd ar flaen y band saith darn fu ar flaen y rhaglen mewn sawl gŵyl enfawr.

Cyfarfu Peter Cox a Richard Drummie, sef Go West, gyntaf ym 1974. Rhyddhawyd eu sengl début *We Close Our Eyes* yng ngwanwyn 1985. Cyrhaeddodd Rif Pump yn siartiau gwledydd Prydain a dod yn hit deg uchaf yn yr Unol Daleithiau. Ar ôl y llwyddiant 'dros nos' yma gwelwyd tri hit eto yn neg uchaf gwledydd Prydain – *Call Me*, *Goodbye Girl* a *Don't Look Down*.

Gwerthodd yr albwm *Go West* ddwy filiwn o gopïau drwy'r byd yn grwm ac aros yn siart gwledydd Prydain am dair wythnos a phedwar ugain, gydag ennill iddyn nhw'u plwy ymhlith goreuon y partneriaethau cyfansoddi caneuon ddaeth i'r fei yn yr wyth degau. Ym 1986 enillon nhw'r Wobr BRIT am y 'Newydd-ddyfodiad Gorau o Brydain' – yr un BRIT roedd y cyhoedd yn gwrando yn ei phenderfynu.

Cawsant sawl sengl mewn siartiau drwy'r byd yn grwn, yn nodedig *King Of Wishful Thinking*, y gân agoriadol yn y ffilm dra llwyddiannus *Pretty Woman*. Gwerthodd

trac sain y ffilm dros ddeng miliwn o gopïau. Cafodd *King Of Wishful Thinking* Wobrau ASCAP ym 1991 a 1992 yn un o'r caneuon chwaraeid fwyaf ar radio America. *Cafodd Faithful*, yr ail sengl o'u halbwm *Indian Summer*, Wobrau BMI tebyg ym 1992 a 1993.

Chwe albwm ac ugain miliwn o werthiannau'n ddiweddarach, mae Go West yn gryfach nag erioed, yn difyrru cynulleidfaoedd mewn gwyliau anferthol drwy'r byd yn grwn.